# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran F

### Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'w hateb ar 9 Tachwedd 1999

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad

**1. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Ar sawl cwango Prydeinig y ceir cynrychiolwyr o Gymru yn hytrach nag o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac sydd felly heb ddilyn proses enwebu ffurfiol y Cynulliad. (OAQ1878VB)

**2. Alison Halford (Delyn);** A wnaiff ddatganiad ar y camau penodol a gymerwyd i sicrhau rhyddid gwybodaeth yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ1853VB)

**3. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa sylwadau y mae wedi'u cael oddi wrth gymdeithasau pobl anabl ynghylch pa ddeunydd a gynhyrchir gan y Cynulliad Cenedlaethol ddylai fod ar gael ar ffurf tâp neu braille. (OAQ1872VB)

**4. Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae'n cynnig eu cymryd i ddiogelu incwm a ffordd o fyw pobl cefn gwlad Cymru at ddiben rhwystro dieithrwch cymdeithasol. (OAQ1854VB)

**5. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa drafod a fu rhyngddo a Chyngor Dinas Caerdydd ynghylch cysylltiadau a) y rheilffyrdd a b) mathau eraill o gludiant cyhoeddus, ag adeilad y Cynulliad. (OAQ1860VB)

**6. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw Llywodraeth Cymru wedi derbyn unrhyw gyngor gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a'i swyddogion ynghylch a ddylid parhau i werthu cig eidion o Ffrainc yng Nghymru. (OAQ1876AG)

**7. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A yw wedi ystyried syniadau i goffau 600 mlwyddiant gwrthryfel Owain Glyndwr yn y flwyddyn 2000. (OAQ1859VB) [w]

**8. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gyfraniad y mae cymarebau disgyblion-athrawon uwch mewn ysgolion uwchradd yn ei wneud i sicrhau cynhwysiant cymdeithasol.

(OAQ1871VB)

**9. Elin Jones (Ceredigion);** Pa sylwadau y mae wedi’u cael oddi wrth unigolion a chyrff ynghylch statws y Gymraeg. (OAQ1973VB)

**10. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Pa gamau y mae’r Prif Ysgrifennydd wedi’u cymryd i gryfhau presenoldeb y Cynulliad o fewn sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd. (OAQ1868VB) [w]

**11. David Davies (Mynwy);** Pa gynlluniau y mae wedi’u rhoi ar waith i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda’r NHS i sicrhau bod yna lai o ‘flocio gwelyau’ yn Ysbytai Cymru. (OAQ1855VB)

**12. Huw Lewis ( Merthyr Tudful a Rhymni);** A all y Prif Ysgrifennydd esbonio pa ganllawiau y mae wedi’u rhoi i’r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ynghylch eu rôl i hybu cynhwysiant cymdeithasol. (OAQ1879VB)

**13. Michael German (Dwyrain De Cymru);** Pa fecanwaith y mae’n ei chynnig ar gyfer sefydlu perthynas ffurfiol rhwng Ysgrifennydd Gwladol Cymru a’r Cynulliad. (OAQ1858VB)

**14. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynnig penodol sydd ganddo i helpu busnesau bach i ddechrau yng Nghymru mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd. (OAQ1870VB)

**15. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A oes gan y Cynulliad yr hawl cyfreithiol i osod gwaharddiad dewisol ar dreialu cnydau GM masnachol yng Nghymru. (OAQ1867VB)

**16. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa astudiaethau sydd wedi’u cynnal i effaith ‘Twymo’r Ddaear’ yng Nghymru, a ragwelwyd ei ganlyniadau ac a yw’n trefnu ymateb i hynny. (OAQ1857VB)

**17. Jane Davidson (Pontypridd);** A yw’r Prif Ysgrifennydd yn ymwybodol nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac Awdurdod Datblygu Cymru byth wedi cytuno ar fanylion Cynllun Adfer Tir Coedelai er gwaetha’r ffaith mai un o amodau arian yr ERDF yw bod yn rhaid i’r cyrff sy’n derbyn grant fod wedi ymrwymo’n llawn i’r project a bod yn rhaid rhoi’r contract adeiladu cyn 31 Rhagfyr 1999. (OAQ1869VB)

**18. Gareth Jones (Conwy);** Beth fydd effaith y Lefi Hinsawdd ar swyddi yng Nghymru. (OAQ1877VB)

**19. David Melding (Canol De Cymru);** Pa ymgynghori a fu gyda chymdeithasau sy’n cynrychioli pobl anabl ynghylch y trefniadau mynediad i adeilad newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ1856VB)

**20. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw ei fwriad o ran cyfraniad Tir Gofal at Gynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad. (OAQ1866VB) [w] [R]